Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

ADRODDIAD GAN BWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD

Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cwn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

Ystyriodd y Pwyllgor *Reoliadau Gorchmynion Rheoli Cwn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007* yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2007.

Mynegodd yr Aelodau eu pryder ynghylch y ffaith nad yw'n ymddangos bod yr is-ddeddfau presennol yn cael eu gorfodi.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y materion a ganlyn:

- sut fydd y cyhoedd yn gwybod pa dir sy'n ddarostyngedig i'r Gorchmynion a wneir o dan y Rheoliadau hyn?
- a oes darpariaethau i alluogi'r cyhoedd i roi gwybod i'r awdurdodau am bobl sy'n torri'r Gorchmynion Rheoli.
- a ddylai hysbysiadau cyhoeddus gynnwys rhif ffôn ar gyfer y rheini sydd am roi gwybod i'r awdurdodau am bobl sy'n torri'r Gorchmynion Rheoli yn ystod oriau craidd?

Cafwyd yr atebion a ganlyn gan y Gweinidog :

- cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw arddangos hysbysiadau'n tynnu sylw at fodolaeth Gorchymyn Rheoli mewn ardaloedd sydd ar agor i'r cyhoedd. Byddai'n rhaid i awdurdodau lleol osod yr hysbysiadau cyhoeddus lle y tybient y byddent fwyaf effeithiol.
- byddai'n trafod canllawiau ar gyfer cynnwys rhifau ffôn mewn hysbysiadau cyhoeddus gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Croesawodd y Pwyllgor y Rheoliadau hyn gan argymell y dylid cymeradwyo *Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cwn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007* heb unrhyw newidiadau.

Glyn Davies AC

Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad